

Astudiaeth Achos - Adolygiad Gwella Ansawdd

Interniaethau Ymchwil ar y Campws - Rhaglen Cyfleoedd Ymchwil Israddedig Caerdydd (CUROP)

Rhagarweiniad

Sefydlwyd Rhaglen Cyfleoedd Ymchwil Israddedig Caerdydd (CUROP) yn 2008 gyda'r nod o alluogi myfyrwyr israddedig i weithio ar brosiectau ymchwil o dan oruchwyliaeth staff academiaidd am bedair i wyth wythnos yn ystod gwyliau'r haf. Y rhesymeg wreiddiol ar gyfer y fenter oedd:

- helpu â phontio'r bwlch rhwng ymchwil, a dysgu ac addysgu
- darparu profiad gwaith gwerthfawr i fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd
- rhoi cyfle i fyfyrwyr gyfrannu at ymchwil byw a chael profiad o ymchwil ôl-raddedig
- galluogi staff sy'n datblygu eu hymchwil i weithio'n agos gyda myfyrwyr.

Mae'r cynllun Interniaethau Ymchwil ar y Campws wedi datblygu'n sylweddol dros amser. Roedd y cynllun peilot cychwynol, gyda chymorth cyllido CCAUC ar gyfer dysgu ac addysgu, yn cynnwys 15 o brosiectau oedd yn talu cyflog o £1,300 i fyfyrwyr. Ond, yn 2015, ymrwymodd Bwrdd Gweithredol y Brifysgol (UEB) i ddarparu adnoddau ar gyfer twf sylweddol o CUROP gyda chynnydd o £170K i £400K y flwyddyn rhwng 2015-16 a 2019-20. Cyflwynwyd cynllun dysgu ac addysgu cyfochrog, Prosiectau Arloesedd Addysg Prifysgol Caerdydd (CUSEIP), yn 2017 i gynnig lleoliadau cyffelyb yn canolbwyntio ar brosiectau dysgu ac addysgu byw. Yn 2020, cafodd y cynllun ei ailfrandio fel 'Interniaethau ar y Campws' i ganiatáu ar gyfer lleoliadau eraill ar y campws - er enghraifft, gyda'r Gwasanaeth Gyrfaoedd sy'n trefnu lleoliadau gwaith ar draws gwasanaethau proffesiynol y Brifysgol. Ar draws CUROP a CUSEIP, trefnwyd 179 o gyfleoedd ar leoliad yn 2019-20. Ers 2008, mae dros 1,300 o fyfyrwyr wedi ymgymryd naill ai â lleoliad ymchwil neu ddysgu ac addysgu, ac mae dros £2 filiwn o gyllid y brifysgol wedi'i fuddsoddi yn y cynlluniau.

Ceisiadau gan staff i'r cynllun

Rheolir y cynllun gan Academi Dysgu ac Addysgu Caerdydd (yr Academi), sef y Ganolfan Cymorth Addysg ac Arloesi gynt, sy'n goruchwyllo'r alwad flynyddol, gystadleuol am geisiadau. Gofynnir i staff academiaidd awgrymu prosiectau posibl, gan ganolbwyntio ar brofiad myfyrwyr, ymgysylltiad a chanlyniadau posibl, megis sgiliau trosglwyddadwy, yn hytrach na'r prosiect ymchwil neu ddysgu ac addysgu ynddo'i hun. Mae'r pwyslais ar yr hyn y bydd myfyrwyr yn ei gael o'r lleoliad:

- Beth fydd y myfyriwr yn ei wneud?
- Sut byddant yn cael eu hintegreiddio i ddiwylliant gwaith?
- Pa sgiliau trosglwyddadwy fydd y myfyriwr yn eu meithrin o'r lleoliad?
- Pa gyfleoedd hyfforddi sydd ganddynt?
- Sut bydd myfyrwyr yn elwa?

Caiff y ceisiadau eu hasesu a'u sgorio yn erbyn meini prawf allweddol - cyd-destun y cynnig, ynghyd â lefelau cefnogaeth ac adnoddau; gweithgareddau arfaethedig y myfyriwr; a datblygiad posibl y myfyriwr -gan banel o academyddion sydd â phrofiad o'r cynllun. Nod yr Academi yw cynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr ar y paneli cymeradwyo.

Hysbysebu'r prosiectau

Hysbysebwyd prosiectau llwyddiannus yn wreiddiol o fewn ysgolion y brifysgol, ond maent bellach yn cael eu hysbysebu'n ganolog trwy *Target Connect* - llwyfan gyrfaoedd a chyflogadwyedd y Brifysgol - i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r cynllun a'i gyfleoedd. Mae'r newid hwn wedi arwain at gynydd mewn ceisiadau.

Ceisiadau gan fyfyrwyr am interniaethau

Cynlluniwyd y broses ymgeisio i gynorthwyo myfyrwyr trwy ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd. Mae'n ofynnol iddynt gyflwyno cais ffurfiol a CV ac fe'u hanogir hefyd i drafod eu cais gyda'r tîm Gyrfaoedd. Asesir ceisiadau gan brif oruchwylywyr, a chynhelir cyfweiliadau i ganfod ymgeiswyr addas.

Y lleoliad

Mae ymgeiswyr llwyddiannus bellach yn cael eu talu ar raddfeydd cyflog cenedlaethol a thrwy sianel arferol asiantaeth recriwtio Undeb y Myfyrwyr, '*Jobshop*', sydd hefyd yn cynnal gwiriadau 'hawl i weithio' myfyrwyr cyn i leoliadau ddechrau. Mae myfyrwyr yn gweithio i broffil rôl a disgrifiad swydd arferol y brifysgol. Fodd bynnag, o fewn y pedair i wyth wythnos, gellir cynllunio'r lleoliad yn hyblyg i gwrdd ag amgylchiadau personol myfyrwyr. Cânt eu capio ar 200 awr gydag uchafswm o 35 awr yr wythnos.

Unwaith y byddant wedi'u recriwtio, bydd myfyrwyr yn derbyn llawlyfr ar gyfer eu carfan sy'n cynnwys yr holl wybodaeth gyffredinol y bydd ei hangen arnynt yn ystod eu lleoliadau. Mae tîm yr Academi ar gael i gynnig cyngor a chymorth i fyfyrwyr yn ogystal â'u cyfeirio at adrannau priodol y brifysgol am gymorth pellach yn ôl yr angen. Mae'r Academi hefyd yn cynnal amrywiaeth o ddiwyddiadau ar gyfer pob myfyriwr ar leoliad. Trefnir digwyddiad croeso sy'n gyfle i'r garfan gyfan ddod ynghyd, ac estynnir gwahoddiad i gyn-fyfyrwyr sydd wedi bod ar leoliad i rannu eu profiadau. Mae'r cyfle i'r holl fyfyrwyr gwrdd â'i gilydd yn arbennig o werthfawr mewn cyd-destun lle, dros gyfnod yr haf, efallai y bydd angen i fyfyrwyr alw ar gyfoedion ar gyfer grwpiau ffocws a gweithgareddau ymchwil eraill. Yn ystod cyfnod y lleoliad, mae 'Dyfodol Myfyrwyr' ('Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd' gynt) yn cynnal gweithdy datblygu sgiliau.

Daw'r interniaethau i ben gydag arddangosfa o bosteri a grëwyd gan fyfyrwyr. Mae myfyrwyr yn cael arweiniad ar ddylunio posterï ymchwil a sgiliau cyfathrebu yn yr hyn a fydd, i'r mwyafrif, yn brofiad newydd. Mae'r arddangosfa'n agored i bawb ac mae'n dechrau gyda goruchwylywyr a myfyrwyr yn cael cinio a rhagflas o'r prosiectau.



Gwahoddir amryw o staff eraill y brifysgol, gan gynnwys aelodau o'r UEB, y Dirprwy Is-Ganghellor Addysg, uwch dimau rheoli ysgolion ac arweinwyr gwasanaethau proffesiynol, yn ogystal â myfyrwyr. Mae myfyrwyr a staff sy'n ymwneud â'r prosiect wedi sôn am werth yr arddangosfa bosteri, gan ei bod yn gyfle i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau cyflwyno a dysgu oddi wrth eu cyfoedion.

Adborth myfyrwyr

Mae'r Brifysgol yn cynnal gwerthusiad blynyddol o'r cynllun ac yn adrodd bod adborth myfyrwyr ar y prosiect wedi bod yn hynod gadarnhaol, sef dros 90%, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Yn ogystal â hynny, mae'r adborth wedi galluogi'r Brifysgol i wneud gwelliannau rheolaidd i'r cynllun, er enghraifft cyflwyno oriau penodol ar gyfer y rhaglen ac alinio'r gyfradd gyflog â graddfa Cymrawd Ymchwil AU y Brifysgol.

Mae sylwadau gan interniaid o 2019 yn cynnwys:

- 'Byddwn i'n argymhell y cynllun hwn i bawb. Rwy'n ei chael hi'n anodd dweud mewn geiriau pa mor werthfawr y mae wedi bod!'
- 'Dyma'r profiad gorau i mi ei gael erioed, mae wedi helpu o ran fy astudiaethau yn y dyfodol.'
- 'Mae'n dda o beth y gall myfyrwyr ar leoliad ennill cyflog. Mae'n dangos bod eu gwaith yn cael ei werthfawrogi, yn enwedig gan fod y rhan fwyaf o brofiadau fel hyn yn ddi-dâl.'
- 'Roedd y lleoliad yn bleserus iawn ac mae wedi cadarnhau fy mod i eisiau dilyn gyrfa mewn ymchwil. Dysgodd lawer i mi am yr hyn y mae ymchwil yn ei olygu o ddydd i ddydd, ynghyd â nifer o wahanol sgiliau ymchwil, a fydd yn fy helpu gyda fy mlwyddyn olaf a'r traethawd hir.'
- 'Rwy'n teimlo bod lleoliad gwaith CUROP wedi fy ngalluogi i ddatblygu fy sgiliau academaidd a rhyngpersonol, gan roi profiad gwerthfawr i mi yn fy mhwno fy hun, a hefyd o ran sgiliau trosglwyddadwy.'

Mae adborth gan fyfyrwyr yn cadarnhau barn y Brifysgol bod y cynllun yn darparu profiad gwaith ystyrlon sy'n datblygu sgiliau ymchwil a chyflogadwyedd, gan helpu myfyrwyr i symud ymlaen.

Effaith

Mae'r Brifysgol wedi bod yn awyddus i asesu effaith y cynllun, ac mae'n cyfeirio at werthusiadau blynyddol fel tystiolaeth o werth y fenter o ran datblygu sgiliau ymchwil a chyflogadwyedd.

- Dangosodd data o 2015-16 ar gyfer y rhai sy'n gadael addysg uwch (DLHE) fod 59% o fyfyrwyr graddedig oedd wedi bod ar leoliad bellach mewn gwaith llawn-amser neu ran-amser; roedd 4% yn astudio'n rhan-amser a 29% yn astudio'n llawn-amser.
- Datgelodd gwerthusiad myfyrwyr o'r cynllun yn 2019 fod 97% o'r garfan yn credu eu bod wedi datblygu sgiliau cyflogadwyedd gwerthfawr; dywedodd 90% eu bod wedi datblygu eu sgiliau ymchwil, ac roedd gan 67% fwy o awydd i fynd ymlaen i ymwneud ag astudiaethau ôl-raddedig ar ôl cymryd rhan yn CUROP neu CUSEIP.
- Mae staff yr un mor frwdfrydig; yng ngwerthusiad staff 2020 o'r cynllun, teimlai 87% fod myfyrwyr yn gwneud cyfraniad pwysig i brosiectau ymchwil/dysgu ac addysgu; roedd 94% yn credu bod profiad CUROP/CUSEIP yn gwella galluedd y myfyrwyr ar gyfer blynyddoedd astudio dilynol, ac roedd 100% o'r farn bod y profiad CUROP/CUSEIP yn datblygu sgiliau ymchwil myfyrwyr.
- Mae sawl aelod o staff academaidd y Brifysgol yn raddedigion o'r cynllun, ac maent yn tynnu sylw at rôl y lleoliad wrth ddatblygu eu cryfderau, gydag un myfyriwr graddedig o Gaerdydd, sydd bellach yn ddarlithydd, yn dweud: 'Rwy'n gefnogwr brwd o CUROP, ac yn wir rwy'n credu na fyddwn wedi cael fy ngradd PhD hebdo.' Mae lleoliadau wedi arwain at fyfyrwyr yn cyflwyno papurau mewn cynadleddau, cyhoeddi papurau ymchwil a datblygu sgiliau ymchwil penodol.

Adolygiad Gwella Ansawdd (QER)

Ar gyfer ei QER, cynigiodd y Brifysgol CUROP a CUSEIP fel tystiolaeth o sut mae myfyrwyr yn cael eu cefnogi yn eu datblygiad dysgu a sut mae'r sefydliad yn gweithio mewn partneriaeth â'i fyfyrwyr. Roedd adolygwyr QER yn gallu trafod y cynllun yn uniongyrchol â myfyrwyr, a oedd yn llawn canmoliaeth. Helpodd hyn i ddarparu'r dystiolaeth oedd yn galluogi tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd i ganmol y fenter am y cyfleoedd i fyfyrwyr ymgysylltu â gweithgareddau ymchwil, gwella eu profiad dysgu, a gwella eu rhagolygon ar gyfer gyrfa.

Y camau nesaf

Oherwydd y pandemig COVID-19, gohiriwyd y cynllun ar gyfer 2020 a 2021 gyda phrosiectau cymeradwy'n cael eu trosglwyddo i'r flwyddyn academaidd 2021-22. Mae'r Academi wedi dechrau cynllunio ar gyfer 2022 i nodi sut y gellir addasu prosiectau i'w cyflawni mewn cyd-destun cyfunol neu'n gyfangwbl ar-lein, ac i weithio gyda phrosiectau - er enghraifft, y rhai sy'n cael eu cynnal mewn labordai - sy'n gofyn am gyfranogiad wyneb-yn-wyneb.

Yn y tymor hwy, y nod yw sicrhau dyfodol ariannol y cynllun a meddwl ymhellach am ei ddatblygiad - er enghraifft, wrth alinio â blaenoriaethau ymchwil y Brifysgol, ac ymwneud â mwy o fyfyrwyr o gefndiroedd ehangu cyfranogiad, lle bu ymgysylltiad yn llai amlwg. Serch hynny, y nod yw parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith rhagorol, cefnogol i fyfyrwyr.

Mwy o wybodaeth

Gallwch ddarganfod mwy am [gyfleoedd Prifysgol Caerdydd ar gyfer interniaethau ar y campws](#) trwy [Academi Dysgu ac Addysgu Caerdydd](#).

Talfyriadau:

CUROP - Rhaglen Cyfleoedd Ymchwil Israddedig Caerdydd
CUSEIP - Prosiectau Arloesedd Addysg Prifysgol Caerdydd
DLHE - Cyrchfan Ymadawyr Addysg Uwch
QER - Adolygiad Gwella Ansawdd
UEB - Bwrdd Gweithredol y Brifysgol

Mae QAA yn ddiolchgar am y gefnogaeth a'r wybodaeth a ddarparwyd gan Mary-Kate Lewis, Rheolwr Prosiectau a Gweithrediadau yn Academi Dysgu ac Addysgu Caerdydd ym Mhrifysgol Caerdydd wrth ddatblygu'r astudiaeth achos hon.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn y Gymraeg hefyd.

8 Mehefin 2022

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2022
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786
www.qaa.ac.uk